**LC1344**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## The Avian Influenza and Influenza of Avian Origin in Mammals (Wales) Order 2006

Mae’r Gorchymyn hwn yn trosi Cyfarwyddeb y Cyngor 2005/94/EC ("y Gyfarwyddeb") ar fesurau’r Gymuned ar gyfer rheoli ffliw adar, ac eithrio Pennod IX o’r Gyfarwyddeb. Mae Pennod IX o’r Gyfarwyddeb yn ymwneud â brechu ac fe gafodd ei throsi gan Reoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) 2006. Mae’r Gorchymyn hwn hefyd yn diwygio Gorchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003 a Gorchymyn Clefydau mewn Anifeiliaid (Diheintyddion Cymeradwy) 1978. Diddymodd y Gyfarwyddeb hon Gyfarwyddeb y Cyngor 92/40/EEC.

Gwnaed y Gorchymyn hwn gan ddefnyddio gweithdrefn rannol Weithredol, gan ei fod wedi ei gymeradwyo yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Gorffennaf, er nad oedd wedi cael ei ystyried ymlaen llaw gan y Pwyllgor Deddfau.

## Rheol Sefydlog 11.7

Cafodd y pwyntiau canlynol eu nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Gwnaed y Rheoliadau yma yn Saesneg yn unig. Oherwydd "hyd a chymhlethdod y ddeddfwriaeth, a’r ffaith fod ei hangen ar fyrder", penderfynodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad nad oedd hi’n bosibl eu gwneud yn ddwyieithog. [Rheol Sefydlog 11.7(viii)]

Cyfeiria’r diffiniad o "dispose" yn erthygl 2 at "the Animal By-Products (Wales) Regulations 2005";

dylai gyfeirio at "Animal By-Products (Wales) Regulations 2006", a wnaed ar 10 Mai 2006 ac a ddaeth i rym ar 12 Mai. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae nifer o enghreifftiau o iaith rhyw benodol yn parhau i ymddangos yn y testun a dylid eu newid pan gaiff y Gorchymyn hwn ei ail-wneud. [Rheol Sefydlog 11.7(vii)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw’r ddau bwynt olaf a byddai wedi bod yn addas eu cywiro trwy Femorandwm Cywiriadau. Bellach bydd angen deddfwriaeth gywiro i wneud hynny. Deellir y bydd gorchymyn disodli yn cael ei wneud cyn bo hir.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 19 Medi 2006